

NODYN YMARFER 10: ARCHWILIO DATGANIADAU ARIANNOL A RHEOLEIDD-DRA CYRFF Y SECTOR CYHOEDDUS YN Y DEYRNAS UNEDIG (DIWYGIWYD 2020)

GWAHODDIAD I GYNNIG SYLWADAU

Dyddiad cau ar gyfer ymateb: Dydd Llun 31 Awst 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus (FfAC)¹ wedi'i ddynodi gan y Cyngor Adrodd Ariannol (CAA) yn 'gorff sy'n gwneud Datganiadau o Arfer a Argymhellir (SORP)' i ddibenion cynnal a diweddarau Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (NY 10). O dan drefniadau'r 'corff gwneud SORP' mae'r FfAC yn gyfrifol am baratoi ac ymgynghori ynghylch diwygiadau i NY 10, cyn ceisio cymeradwyaeth y CAA nad oes unrhyw agwedd o fewn y Nodyn Ymarfer sy'n anghyson â safonau archwilio nac amcanion ehangach y CAA.
2. Mae FfAC bellach yn gwahodd sylwadau ynghylch y drafft amlygu o'r NY 10 diwygiedig, a gyflwynir gyda'r ddogfen hon, yn dilyn cytundeb gan y FfAC i ymgynghori â'r cyhoedd ar y newidiadau a gynigir.

Y CEFNDIR

3. Mae NY 10 yn nodi sut y bydd archwilwyr cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cymhwyso safonau archwilio i'w gwaith ar ddatganiadau ariannol. Pwrpas y Nodyn Ymarfer yw helpu i sicrhau cysondeb wrth gymhwyso safonau archwilio gan gydnabod ar yr un pryd y fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol penodol sy'n berthnasol i'r archwiliadau o gyrrff y sector cyhoeddus. Mae NY 10 hefyd yn rhoi arweiniad ar y dull o archwilio rheoleidd-dra.
4. Mae'r Nodyn Ymarfer yn canolbwyntio ar archwiliadau o ddatganiadau ariannol ac nid yw mor berthnasol i waith archwilio'r sector cyhoeddus ar drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau, er enghraifft. Mae gwaith o'r fath yn ddarostyngedig i ofynion penodol mewn Codau Ymarfer Archwilio perthnasol ac mewn canllawiau eraill a gyhoeddwyd gan asiantaethau archwilio cyhoeddus ledled y DU.
5. Cafodd NY 10 ei ddiwygio ddiwethaf yn 2016, ac mae angen sicrhau bod Nodyn Ymarfer yn cael ei ddiweddarau i ystyried newidiadau i Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs). Bydd ISA 540 *Amcangyfrifon Cyfrifyddu* ac ISA 570 *Busnes Gweithredol* yn dod i rym ar gyfer cyfnodau'n dechrau ar 15 Rhagfyr 2019 neu ar ôl hynny, ac mae newidiadau wedi'u gwneud i ddrafft y Nodyn Ymarfer i adlewyrchu'r safonau diweddaraf. Mae drafft NY 10 hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar ddiffinio cwmpas y fframwaith o awdurdodau.
6. Yn dilyn yr adolygiad hwn yn 2020, rydym yn bwriadu parhau i adolygu NY 10 yn rheolaidd i ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach bob blwyddyn. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod hwn, mae'n debygol y bydd angen newidiadau i adlewyrchu'r ISA 315 *Nodi ac Asesu Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol* ddiwygiedig a chyflwyno Safonau Rhyngwladol ar Reoli Ansawdd (ISQMs) i ddisodli'r Safon Ryngwladol ar

¹Aelodau'r Fforwm yw Archwilio'r Alban, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Reoli Ansawdd 1 (ISQC 1). Bydd iteriadau pellach o NY 10 yn ymateb i newidiadau i safonau fel bo'n briodol.

ASESIAD EFFAITH

7. Gan mai canllawiau i gefnogi arfer gorau yw Nodyn Ymarfer, ac nad yw'n rhagnodedig, nid yw'r FfAC wedi cwblhau asesiad effaith ar wahân. Mae hyn oherwydd nad yw'r Nodyn Ymarfer diwygiedig yn effeithio ar lefel ymdrech-gwaith yr archwilydd sy'n ofynnol o dan safonau archwilio ac oherwydd bod lefel yr ymdrech-gwaith sy'n ofynnol mewn perthynas â rheoleidd-dra, lle mae hyn yn ofynnol, yn adlewyrchu'r arfer presennol ac nad yw'n cynnwys gweithdrefnau ychwanegol.

GWAHODDIAD I GYNNIG SYLWADAU

8. Mae'r drafft amlygu yn cynnwys dwy brif ran:
Rhan 1: Cymhwyso'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)
Rhan 2: Archwilio rheoleidd-dra
9. Mae'r prif gynnwys y bydd ymatebwyr yr ymgynghoriad hwn yn dymuno canolbwyntio arno i'w gael yn y rhannau hyn. Serch hynny, byddai hefyd yn fuddiol cael unrhyw sylwadau eraill am y deunydd yn y NY 10 arfaethedig, gan gynnwys yr eirfa.
10. Mae'r atodiad i'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb manylach o'r diwygiadau i NY 10, ynghyd â sail resymegol dros y newidiadau penodol a gynigir.
11. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r cwestiynau ymgynghori isod, ond mae croeso ichi ychwanegu unrhyw sylwadau ychwanegol y byddai'n fuddiol i'r FfAC eu hystyried yn eich tyb chi, wrth gwblhau'r diwygiadau arfaethedig i NY 10.
12. Croesewir sylwadau gan unrhyw bartion a chanddynt fuddiant. Mae FfAC yn gwahodd sylwadau yn arbennig gan rai sy'n cynrychioli defnyddwyr datganiadau ariannol y sector cyhoeddus.

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Cwestiwn 1: Mae'r fersiwn hon o Nodyn Ymarfer 10 yn cynnwys newidiadau helaeth i'r adran ar ISA 570 *Busnes Gweithredol*. **Ydych chi o'r farn fod y drafft diwygiedig yn rhoi canllawiau priodol a defnyddiol ar gymhwyso'r safon ddiwygiedig? Pa newidiadau ddylid eu gwneud, os o gwbl?**

Cwestiwn 2: Mae canllawiau wedi'u cynnwys ar gyfer yr achos lle bydd y fframwaith adrodd yn gofyn bod yr wybodaeth arall "yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy" (ISA 720). **A yw'r paragraff hwn yn nodi ymateb archwilio priodol ar gyfer yr amgylchiadau hyn?**

Cwestiwn 3: Mae'r canllawiau yn yr adran ar ISA 560 *Digwyddiadau Dilydol* wedi cael eu haildrefnu a'u gwneud yn fwy eglur. **Ydych chi o'r farn fod y drafft diwygiedig yn rhoi canllawiau priodol a defnyddiol ar gymhwyso'r safon ddiwygiedig? Pa newidiadau ddylid eu gwneud, os o gwbl?**

Cwestiwn 4: Mae'r adran ar archwilio rheoleidd-dra yn adlewyrchu'r arfer presennol yn y sector cyhoeddus. **Ydych chi o'r farn fod y canllawiau yn Rhan 2: Archwilio rheoleidd-dra yn briodol, yn ddigonol ac yn berthnasol i bob rhan o'r sector cyhoeddus? Os nad ydych chi, pa newidiadau yr hoffech eu gweld a pham?**

Cwestiwn 5: Mae'r fersiwn hon o Nodyn Ymarfer 10 wedi'i ddrafftio gyda'r bwriad y bydd iteriadau pellach yn cael eu cyhoeddi dros y blynyddoedd i ddod i ystyried safonau a chanllawiau pellach a fydd yn cael eu rhyddhau, a hefyd o ganlyniad i ddatblygiadau ehangach yn y proffesiwn archwilio. **Ydych chi o'r farn fod y dull hwn yn**

Fforwm Archwilio Cyhoeddus

brïodol? Pa agweddau ar ddatblygiadau cyfredol, os o gwbl, nad ydynt wedi'u cynnwys eto y dylid eu hymgorffori yn y fersiwn hon o'r Nodyn Ymarfer?

Cwestiwn 6: A oes unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n brïodol yn eich barn chi? Os felly, pa newidiadau yr hoffech eu gweld a pham?

Cwestiwn 7: Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg yng Nghymru, a bod unigolion yn gallu derbyn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg neu yn Saesneg. **Ydych chi o'r farn fod unrhyw beth yn yr ymgynghoriad drafft hwn yn taseilio'r gofynion hyn? Ydych chi'n meddwl y gellid diwygio unrhyw beth i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg?**

RHOI SYLWADAU AR Y CYNIGION

13. Mae'r FfAC wedi sefydlu tîm prosiect i ddatblygu'r diwygiadau i NY 10. Bydda'n well gan dîm prosiect y FfAC dderbyn llythyrau yn cynnwys sylwadau ar ffurf electronig sy'n hwyluso "copïo a gludo". Gellir anfon y rhain drwy e-bost at:

NodynYmarfer10@public-audit-forum.org.uk

neu

PracticeNote10@public-audit-forum.org.uk

14. Dylid anfon ymatebion fel eu bod yn cael eu derbyn **erbyn 5pm ddydd Llun 31 Awst 2020 ar yr hwyraf**. Ystyrir bod yr holl sylwadau'n cael eu cynnwys ar y cyfnod cyhoeddus oni wneir cais fel arall.

15. Gellir ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg neu'n Saesneg.

ATODIAD: CRYNODEB O'R NEWIDIADAU O FERSIWN 2016

Adran	Diweddariadau
Enw	Ailenwi'r Nodyn Ymarfer i gynnwys cyfeiriad at reoleidd-dra.
Tudalen cynnwys	Wedi'i diweddarau i gyd-fynd â newidiadau eraill i'r cynnwys.
Rhagair	Sylwadau wedi'u diwygio ar y diweddariadau a wnaed ers diwygiad blaenorol NY 10.
ISQC 1	Wedi cynnwys cyfeiriad at baragraff A57 o ISA 240 sy'n trafod y sefyllfa pan na fydd archwilydd y sector cyhoeddus yn gallu tynnu'n ôl o'r ymrwymiad.
ISA 240	Wedi diweddarau'r cyfeiriadau i fersiwn ddiweddaraf y rheoliadau Gwyngalchu Arian.
ISA 250A	Wedi diweddarau'r cyfeiriadau i fersiwn ddiweddaraf y rheoliadau Gwyngalchu Arian. Wedi ychwanegu eglurhad o'r rheoliadau newydd na ddylid ystyried bod adroddiad i'r MLRO yn gyfystyr ag achos o dorri cyfyngiad na datgelu gwybodaeth.
ISA 320	Wedi rhoi enghreifftiau o feysydd lle gallai archwilwyr ystyried pennu trothwy perthnasedd is.
ISA 540	Wedi diweddarau teitl y safon. Wedi diweddarau'r amcanion i gyd-fynd â'r fersiwn newydd. Wedi ychwanegu adran ar ffactorau risg cynhenid sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus, gydag enghreifftiau. Wedi ychwanegu adran ar y defnydd o ffynonellau gwybodaeth allanol. Wedi diweddarau'r enghreifftiau o asedau anghyfredol yn y sector cyhoeddus.

Fforwm Archwilio Cyhoeddus

	<p>Wedi ychwanegu datganiad y gallai'r dulliau a ddefnyddir fod yn wahanol i'r technegau mwy cyffredin i ddisodli'r datganiad ei bod hi'n bosibl na fydd modd mesur gwerth teg mewn rhai achosion prin.</p>
ISA 560	<p>Aildrefnu ac egluro'r canllawiau ar bennu'r dyddiad pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi, a dyddiad cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Wedi egluro y gellir cymhwyso'r canllawiau ar y dyddiad cyhoeddi ym mharagraffau 5 ac A5 o ISA 560 i endidau fel cyrff llywodraeth leol nad ydynt yn cyflwyno eu cyfrifon i ddeddfwrfa. Wedi egluro yr ystyrir bod datganiadau ariannol llywodraeth ganolog wedi'u cyhoeddi ar y dyddiad cyflwyno yn hytrach na'r dyddiad anfon i gyflwyno.</p> <p>Wedi egluro nad yw'r datganiad "<i>Yn y sector cyhoeddus, bydd yr archwiliad yn dod i ben wrth gyhoeddi barn archwilio statudol yr archwilydd, ac ar ôl i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi, ni cheir eu diwygio nac ailgyhoeddi adroddiad yr archwilydd</i>" yn berthnasol i holl ymrwymadau'r sector cyhoeddus.</p>
ISA 570	<p>Wedi diweddarau'r amcanion i gyd-fynd â'r fersiwn newydd.</p> <p>Wedi diwygio'r canllawiau a gafwyd yn flaenorol ym mharagraff 145 o Ran I o fersiwn 2016 i ddileu'r cyfeiriad at ddiwygiad 2016 o'r safon.</p> <p>Wedi ychwanegu adran ar 'Gynllunio'r ymagwedd at fusnes gweithredol'. O dan yr adran hon, bydd archwilydd y sector cyhoeddus yn pennu sut y caiff ISA 570 ei chymhwyso yn dibynnu a yw fframwaith adroddiadau ariannol yr endid sy'n adrodd yn rhagdybio busnes gweithredol os rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr endid yn cael eu darparu'n barhaus. Os yw fframwaith adrodd ariannol yn gwneud hynny, bydd archwilydd y sector cyhoeddus yn cymhwyso 'Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus'.</p> <p>Wedi ychwanegu adrannau ar 'Ymagwedd darpariaeth gwasanaeth barhaus', sydd yn egluro sut mae archwilydd y sector cyhoeddus yn cymhwyso gofynion ISA 570 ar 'weithdrefnau asesu risg a gweithgareddau cysylltiedig' ac ar 'werthuso asesiadau rheolwyr' yn y sefyllfa hon.</p> <p>Wedi cael gwared â'r canllawiau a oedd gynt ym mharagraffau 151 o Ran I o fersiwn 2016 ynghylch ystyried y dyfodol rhagweladwy (roedd y canllawiau hyn yn nodi gofynion penodol yr ISA sydd bellach wedi'u disodli).</p> <p>Wedi diwygio'r canllawiau a gafwyd yn flaenorol ym mharagraff 158 o Ran I o fersiwn 2016 i drafod y sefyllfa lle bydd archwilydd yn adrodd ar y modd yr aeth ati i werthuso asesiad rheolwyr o fusnes gweithredol, a lle bo barn yr archwilydd yn seiliedig ar gadarnhad trydydd parti gan gefnogwr ariannol.</p> <p>Wedi ychwanegu adran ar gyfeiriadau yn adroddiad yr archwilydd at fusnes gweithredol i drafod y gofynion newydd i rai endidau adrodd ar yr ymagwedd busnes gweithredol yn adroddiad yr archwilydd.</p>
ISA 600	<p>Ychwanegwyd adran ar ddatganiadau ariannol cyfun o gydrannau heb riant.</p>
ISA 700	<p>Wedi diweddarau'r canllawiau a gafwyd yn flaenorol ym mharagraff 179 o Ran I o fersiwn 2016 i adlewyrchu'r ffaith nad yw ISA 701 yn safon newydd mwyach.</p>
ISA 720	<p>Wedi ychwanegu paragraff ar y sefyllfa pan fydd y fframwaith adrodd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r wybodaeth arall a gyflwynir fod yn "deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy"</p> <p>Wedi ychwanegu paragraff ar wybodaeth arall statudol, lle mae'n ofynnol i'r archwilydd fynegi datganiad cadarnhaol yn adroddiad yr archwilydd.</p>
Rhan 2	<p>Wedi ychwanegu adran ar y fframwaith o awdurdodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr archwilydd er mwyn rhoi arweiniad ar y modd y mae'r archwilydd yn penderfynu pa awdurdodau sy'n berthnasol i ddibenion y farn ar reoleidd-dra. Wedi ychwanegu enghreifftiau a allai fod yn berthnasol o ran ansawdd at yr adran ar berthnasedd, ac egluro nad yw'r meysydd hyn wedi'u cyfyngu i'r enghreifftiau a roddwyd.</p>
Cyffredinol	<p>Mân newidiadau argraffyddol a fformatio.</p>

	Diweddarwyd rhifau'r paragraffau i wahaniaethu rhwng Rhannau 1 a 2.
--	---